Cwestiynau ffurflen Datganiad o Ddiddordeb

Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gofyn am grant o fwy na £250,000 i lenwi ffurflen Datganiad o Ddiddordeb.

Gallwch weld y cwestiynau ar y ffurflen Datganiad o Ddiddordeb isod.

Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?
Os felly, dywedwch wrthym eu henw.

Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect
Dylech gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Mae gennych 200 o eiriau.

Oes gennych chi deitl ar gyfer y prosiect?
Gellir newid hyn ar unrhyw adeg. Peidiwch â phoeni os nad oes gan y prosiect deitl eto, gallwch adael hyn yn wag.

Pa ganlyniadau ydych chi am eu cyflawni?
Mae canlyniad yn ganlyniad i'r hyn y mae eich prosiect yn ei wneud. Dywedwch wrthym pa un o'n naw canlyniad rydych chi'n bwriadu eu cyflawni. Mae gennych 200 o eiriau.

Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect
Cofiwch gynnwys i bwy mae'n bwysig a pham. Mae gennych 100 o eiriau.

Beth yw'r angen am y prosiect yma?
Pa waith yr ydych wedi'i wneud sy'n dangos manteision posibl y prosiect? Mae gennych 200 o eiriau.

Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?
Dywedwch wrthym ddyddiad dechrau a gorffen amcangyfrifedig os oes gennych chi. Mae gennych 50 gair.

Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?
Os gwyddoch, dywedwch wrthym am y costau pwysicaf. Gellir amcangyfrif y costau hyn. Mae gennych 200 o eiriau.

Faint o gyllid yr ydych yn bwriadu gwneud cais amdano gennym ni?
Cyflwynwch swm.

Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am gyllid, os gofynnir i chi wneud hynny?
Mae gennych 50 gair.